



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Gyda'n Gilydd at y Miliwn

Cynllun Strategol — 2021 ymlaen

“...Mae cyfraniad siaradwyr sy'n dysgu'r
Gymraeg y tu allan i'r cartref yn gwbl
allweddol i lwyddiant ein strategaeth.”

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Croeso

Creu siaradwyr Cymraeg newydd yw nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a thrwy hynny, gyfrannu at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu gwersi ac adnoddau i bobl ddysgu'r Gymraeg.

Y Ganolfan sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg i oedolion – o ddatblygu cyrsiau ac adnoddau digidol arloesol i hyfforddi tiwtoriaid a chreu cyfleoedd i ddysgwyr fwynhau'r Gymraeg. Mae'r Ganolfan yn cytundebu 11 darparwr cyrsiau, sy'n cynnal dros 1,500 o gyrsiau ar ei rhan yn flynyddol, yn y gorffennol mewn cymunedau ledled Cymru, ac ers Mawrth 2020 yn rhithiol. Mae gweithlu'r sector wedi dangos cryn arloesedd a dyfeisgarwch dros y cyfnod anodd diwethaf ac wedi profi eu hangerdd tuag at roi cyfleoedd gwyb i ddysgwyr.

Mae croesawu siaradwyr newydd o bob cefndir i'r Gymraeg, ac ennyn eu hyder i siarad yr iaith, wrth galon y genhadaeth. Mae prosiectau arbennig y Ganolfan, megis 'Cymraeg Gwaith', cynllun i gryfhau sgiliau dwyieithog yn y gweithle, yn targedu carfanau penodol. Datblygwyd cyrsiau arbennig i ddenu dysgwyr o gefndiroedd amrywiol drwy ein cynlluniau 'Croeso i Bawb'. Mae'r Ganolfan yn cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill i gytuno ar sectorau a charfanau o ddysgwyr i'w blaenoriaethu.

Mae'r Ganolfan wedi cyflwyno sefydlogrwydd strwythurol i'r sector ers ei sefydlu, gyda'r patrwm presennol o ddarparwyr wedi ei sefydlogi. Bydd y Ganolfan yn awyddus i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn barhaus.

Mae camau breision wedi'u cymryd i gysoni a chryfhau ansawdd y ddarpariaeth, sy'n cael ei harolygu'n rheolaidd gan Estyn. Cyflwynwyd cwricwlwm cenedlaethol am y tro cyntaf a datblygwyd platfform digidol, dysgucymraeg.cymru, lle mae modd chwilio am gwrs a chael mynediad at lu o adnoddau digidol, gan gynnwys cyrsiau hunan-astudio. Cyhoeddodd Estyn arolwg diweddar o'r Ganolfan sy'n rhoi sicrwydd bod y Ganolfan yn gweithredu'n effeithiol. Croesawn argymhellion Estyn, sy'n cynnwys rhannu methodoleg addysgu a chaffael ail iaith llwyddiannus gyda sectorau perthnasol eraill.

Lluniwyd y Cynllun Strategol hwn, sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer y cyfnod nesaf, mewn ymgynghoriad â darparwyr cyrsiau a Byrddau Cwmni ac Ymgynghorol y Ganolfan a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mis Mai 2021.

Mae amseru'r cynllun hwn yn cyd-fynd ag Adolygiad Cyflym a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried trefniadau'r Ganolfan ar ddiwedd cyfnod y cytundeb presennol ym mis Gorffennaf 2022. Byddwn am ddatblygu'r cynllun ymhellach yn ddibynnol ar yr argymhellion.


Mae ein huchelgais yn glir - cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu - a defnyddio - y Gymraeg. Ymfalchiwn ym mhob un o'n ddysgwyr – mae eu hymroddiad a'u brwdfrydedd at y Gymraeg yn ysbrydoliaeth barhaus i bawb sy'n gweithio yn y sector Dysgu Cymraeg.


Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr

**Creu
siaradwyr
Cymraeg
newydd yw
nod y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol.**

1. Llinell amser

Gellir ystyried gwaith y Ganolfan yng nghyd-destun datblygiadau'r sector dros yr hanner canrif diwethaf, fel y gwelir yn y llinell amser isod. Un nodwedd o'r hyn a welwyd dros amser yw'r symudiad tuag at gynllunio strategol a chydlynol ar lefel genedlaethol. Wrth weithredu'r Cynllun Strategol hwn, bydd y Ganolfan yn parhau gyda'i gwaith o gynllunio a chydweithio i ymestyn cyfleoedd i bawb ddysgu'r iaith a dod yn siaradwyr newydd hyderus.





Themâu strategol Cymraeg 2050



Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg



Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithlu
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg



Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith a chynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil

Sut mae gwaith y Ganolfan yn cefnogi'r themâu strategol hyn?

Denu - agor drysau i ddysgu'r Gymraeg

- Marchnata a hyrwyddo
- Partneriaethau strategol
- Diwallu anghenion dysgwyr

Dysgu - darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg rhagorol

- Datblygu'r adnoddau a'r ddarpariaeth
- Datblygu'r gweithlu
- Cyfleoedd dysgu i bawb

Defnyddio - helpu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith

- Yn y cartref
- Yn y gymuned
- Yn y gweithle

Cynllunio strategol - datblygu gwasanaeth Cymru gyfan

Datblygu ansawdd
Ymchwil a dadansoddi

2. Gweledigaeth

	Creu siaradwyr Cymraeg hyderus trwy ddarparu gwasanaeth Dysgu Cymraeg rhagorol a chynhwysfawr.

3. Gwerthoedd

	▲ Sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael croeso a chefnogaeth wrth iddynt ddysgu a defnyddio'r iaith. ▲ Gweithredu gydag argyhoeddiad ac uchelgais, gan arwain cynlluniau arloesol a blaengar i ddenu cynulleidfaoedd newydd o ddysgwyr. ▲ Gweithio'n agos gyda phartneriaid a chyflogwyr ledled Cymru i sicrhau bod cynlluniau rhagweithiol a hyblyg ar gael i siaradwyr newydd ym mhob man.

4. Amcanion strategol

Cyflwyniad	Bydd gwaith y Ganolfan dros y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth. Mae tri o'r meysydd yn ymwneud ag ymgysylltu'r Ganolfan â dysgwyr: yn gyntaf, denu mwy o bobl i ddysgu'r iaith; yn ail, darparu cyfleoedd dysgu amrywiol ac o ansawdd; ac yn drydydd, cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywyd pob dydd ac mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r amcanion strategol hyn yn cyfrannu yn uniongyrchol at gefnogi gweledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050 a byddwn yn cytuno targedau'n flynyddol gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r pedwerydd maes trosfwaol yn adlewyrchu ymrwymiad y Ganolfan at gynllunio'r ddarpariaeth yn strategol, a rhoi sylw i ddysgu a gwella parhaus trwy sicrhau trefniadau rheoli a llywodraethiant cadarn. Trwy weithdrefnau rheoli'r Ganolfan, byddwn yn parhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel sefydliad a'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Bydd t m o staff yn cael ei gyflogi gan y Ganolfan i sicrhau datblygiadau cenedlaethol ar draws y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu, Cyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu a Chyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu.

1. Denu – agor drysau i ddysgu'r Gymraeg	Bydd y Ganolfan yn denu pobl i ddysgu Cymraeg, ac yn sicrhau cyfle i bawb, lle bynnag maen nhw'n byw, a beth bynnag yw eu cefndir i ddysgu'r iaith. Byddwn am roi croeso arbennig i bobl o bob cefndir a byddwn yn datblygu deunyddiau addas. Gyda chyflwyno dysgu mewn dosbarthiadau rhithiol a chysiau hunan-astudio mae'n bosibl i unrhyw un ar draws y byd ddysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan ac mae llawer wedi dechrau gwneud - ond mae ein pwyslais yn bennaf ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r cyfleoedd newydd yn cynnig hyblygrwydd nas gwelwyd o'r blaen o ran amser, dulliau a chyflymder dysgu. Er mwyn denu unigolion, teuluoedd a'r gweithlu i ddysgu o'r newydd neu i ail-gysylltu â'r iaith, mae'n hanfodol bod y Ganolfan trwy ei gweithgareddau yn trosglwyddo'r neges bod modd i bawb ddysgu'r Gymraeg. Mae creu'r amodau cywir a meithrin brwdfrydedd ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn dibynnu ar gydweithio ar draws Cymru a bydd y Ganolfan yn parhau i adeiladu partneriaethau. Bydd y Ganolfan yn awyddus i drosglwyddo'r neges bod croeso cynnes i bawb sy'n dysgu'r Gymraeg, a llu o gyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu. Mae ystyriaethau newydd i'r dyfodol yn cynnwys argaeledd band llydan a sicrhau bod gan ddysgwyr offer priodol. Mae'r amcan strategol hwn hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ac ymddygiad darpar ddysgwyr. Pam mae unigolion yn dewis dysgu'r Gymraeg neu'n dewis peidio â'i dysgu? A yw'r rhesymau hyn yn newid dros amser, neu'n amrywio o ardal i ardal? Beth yw'r gwersi a ddysgwyd dros amser am yr hyn sy'n ysgogi dysgwyr i ddal ati? Ydy tlodi digidol yn effeithio ar gyfraddau denu dysgwyr yn y byd digidol newydd? Pa effaith mae'r cynnig dysgu digidol yn ei gael ar benderfyniadau? Bydd y cynlluniau a ddatblygir yn ystyried y cwestiynau hyn. Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol: Deallusrwydd o'r sector ▲ Cynnal ymchwil i'r farchnad er mwyn datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o gynulleidfaoedd newydd, yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn sy'n hwyluso dilyniant i ddysgwyr. Y bwriad fydd gweithredu ar sail tystiolaeth. ▲ Fel Cyhoeddwr Ystadegau Swyddogol, sicrhau bod data cywir am y sector yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol. ▲ Gwneud y defnydd gorau o'r data a gesglir ac a gyhoeddir i osod targedau ac adnabod meysydd ymchwil pellach trwy ddadansoddi tueddiadau a phatrymau. ▲ Datblygu rhaglen o gasglu barn dysgwyr a'r gweithlu yn gyson er mwyn arwain at raglen o welliant.
--	---

	Marchnata ▲ Gweithredu Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu, gan adeiladu ar y brand Dysgu Cymraeg. ▲ Gweithredu cynlluniau marchnata cenedlaethol a lleol sy'n hyrwyddo cyrsiau ac yn cefnogi dilyniant dysgwyr. ▲ Defnyddio ystod o ddulliau marchnata a chyfathrebu i hyrwyddo Dysgu Cymraeg, gan ganolbwyntio yn bennaf ar ddulliau digidol, a gwerthuso gwerth am arian ac effeithiolrwydd yn barhaus. Cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg ▲ Datblygu partneriaethau strategol gyda chyrrff mewn amrywiaeth o sectorau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. ▲ Datblygu partneriaethau strategol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Is-adeiledd ▲ Gwneud defnydd llawn o'r platfform digidol unigryw sydd wedi ei ddatblygu ar gyfer y sector, er mwyn rhoi mynediad llawn i ddysgwyr a thiwtoriaid i wybodaeth ac adnoddau.
2. Dysgu – darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg rhagorol i bawb	Mae'r Ganolfan yn uchelgeisiol o ran y ddarpariaeth a gynigir i ddysgwyr. Datblygwyd cwricwlwm arloesol a'r nod yw cynnig darpariaeth ragorol i bob dysgwr, gyda dysgwyr yn teimlo bod eu profiad ardderchog o ddysgu'r Gymraeg yn cyfoethogi eu bywydau, gwella eu sgiliau ac yn codi eu hyder. Rydym yn ymrwymo i gynnig cyfleoedd ar bob lefel, sy'n addas i bawb ac sy'n hyblyg ac yn hygyrch. Rydym am i bobl fedru dysgu yn y gweithle a bod cyrsiau ar gael iddynt sy'n berthnasol i'w swyddi ac wedi'u teilwra ar gyfer eu sector. Mae cynnig cyfleoedd i deuluoedd ddysgu'r Gymraeg, gan gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cartrefi, hefyd yn hollbwysig. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglen uchelgeisiol sy'n rhoi dewisiadau dysgu i ddysgwyr gan gynnwys dosbarth wyneb yn wyneb traddodiadol, dosbarth rhithiol, dosbarth cyfunol a hunan-astudio. Yn ogystal, byddwn yn cynnig cyfleoedd dysgu cymdeithasol i ddysgwyr. Rydym yn cydnabod yr angen i ddysgu o'r arferion gorau a'u rhannu gyda'n rhwydwaith o ddarparwyr a phartneriaid yng Nghymru a thramor. Mae sicrhau dysgu rhagorol yn ddibynnol ar fuddsoddi yn y gweithlu Dysgu Cymraeg, gan godi proffil y sector a chynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol i diwtoriaid ac ymarferwyr eraill. Mae'r gweithlu wedi dangos ei allu a'i barodrwydd i newid ac i ddatblygu sgiliau newydd yn gyflym dros y cyfnod diwethaf.

Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol:

Datblygu'r ddarpariaeth dysgu, gan roi sylw i arloesedd digidol:

- ▲ Golygu, adolygu a chomisiynu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm Dysgu Cymraeg, ar draws [y pum lefel](#) dysgu, gan sicrhau bod adnoddau o ansawdd uchel ar gael i ddysgwyr ar draws yr holl lefelau.
- ▲ Datblygu rhaglen o gyrsiau sy'n cynnwys dulliau amrywiol o ddysgu, gan gynnwys dulliau sy'n newydd i Ddysgu Cymraeg megis dosbarthiadau rhithiol, cyrsiau cyfunol a chysiau hunan-astudio.
- ▲ Y nod yw cynnig hyblygrwydd i'r dysgwyr ddewis y dull gorau iddyn nhw, gan sicrhau cefnogaeth lawn i'r dysgwr, beth bynnag yw honno. Byddwn am seilio datblygiadau ar arferion addysgol cadarn gan roi sylw i ymchwil a phrofiad y dysgwr.
- ▲ Cynllunio darpariaeth sy'n hyblyg o ran lleoliadau, amseriad a hyd cyrsiau, gyda'r nod o gynyddu oriau cyswllt y dysgwr, er mwyn cyflymu'r broses o ddysgu'r Gymraeg.
- ▲ Datblygu rhaglen ar-lein sy'n galluogi dysgwyr i adnabod eu cynnydd yn ystod ac wrth iddynt gwblhau cyrsiau. Y nod yw annog dysgwyr i barhau gyda'r cwricwlwm, gan arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Rydym am annog dysgwyr ar bob lefel, yn enwedig ar lefel Canolradd ac ymlaen, i ddefnyddio'u Cymraeg fel siaradwyr hyderus.
- ▲ Parhau i ddatblygu'r Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg, sef erfyn diagnostig arloesol i bennu lefel dysgwr.
- ▲ Rhoi cyngor i ddarparwyr ar gynllunio darpariaeth ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Gall hyn gynnwys rhoi ystyriaeth i'r trefniadau posibl yn y tymor canolig a thymor hir, i ddarpariaeth hunan-astudio, a gweithio gydag ystod o bartneriaid newydd er mwyn ymestyn y cyfleoedd dysgu digidol i ddysgwyr.
- ▲ Rhannu arbenigedd gyda sectorau eraill o ran dulliau caffael iaith a rhannu adnoddau.
- ▲ Meithrin cysylltiadau rhyngwladol er mwyn rhannu ein gwaith a dysgu o arferion da gwledydd eraill.
- ▲ Targedu sectorau o gyflogwyr yn strategol gan ddatblygu gwasanaeth penodol iddynt.

	Datblygu'r gweithlu Dysgu Cymraeg: Gweithredu Cynllun Datblygu Gweithlu'r Ganolfan. Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar bedwar prif faes blaenoriaeth, o dan y penawdau canlynol: 1. Codi proffil a chreu llwybrau gyrfa atyniadol. 2. Cynnig strwythurau addas ac ystyrlon. 3. Datblygu gweithlu cymwysedig a phwrpasol. 4. Cynnal perfformiad aruchel. ▲ Cynnig Cymwysterau Cenedlaethol gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm a'r deunyddiau dysgu newydd. Darparu cyfleoedd dysgu i bawb: ▲ Gweithredu cynlluniau newydd arloesol sy'n sicrhau bod dysgu'r Gymraeg o fewn cyrraedd i bawb, gan gynnwys cynnal cyrsiau blasu i geiswyr lloches a ffoaduriaid.
3. Defnyddio – helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau a'r gweithle	Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Mae gan y Ganolfan rôl bwysig, mewn partneriaeth ag eraill, i gynyddu ac ehangu'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu sgiliau. Y nod yw magu hyder ymysg dysgwyr a siaradwyr di-hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrediad o gyd-destunau – o fewn eu cymunedau, ar rwydweithiau cymdeithasol, yn y gweithle ac o fewn y teulu, gan gefnogi is-adeiledd y Gymraeg. Byddwn yn cyflawni'r amcan strategol hwn drwy'r camau gweithredu canlynol: ▲ Gweithredu'r cynllun arloesol Cymraeg Gwaith, gan ehangu'r cynllun i ystod o sectorau wedi eu cytuno yn flynyddol. Bydd y blaenoriaethau i'r dyfodol yn cynnwys: – Cyrsiau dysgu hunan-astudio, gyda chefnogaeth tiwtor. – Sefydlu partneriaethau grymus gyda sefydliadau arbenigol. – Cefnogi cyflogwyr i gynllunio ar gyfer gweithlu dwyieithog. – Cydweithio gydag adrannau polisi amrywiol o fewn Llywodraeth Cymru i ymestyn y cynllun yn sectorol. ▲ Gweithredu rhaglen newydd Cymraeg yn y Cartref, er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i rieni ddysgu er mwyn siarad Cymraeg â'u plant. Bydd y blaenoriaethau yn cynnwys: – Cynnig ystod o gyrsiau cymunedol sy'n annog rhieni i ddysgu Cymraeg. – Gweithio'n strategol ar lefel leol i sefydlu partneriaethau gydag ysgolion, gan arwain at fwy o wersi i rieni a theuluoedd. – Teilwra adnoddau ar gyfer rhieni, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr blynyddoedd cynnar a chynradd. – Datblygu prosiect Clwb Cwtsh.

	▲ Ehangu ‘Siarad’, sef cynllun sy’n paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg er mwyn cefnogi dysgwyr i ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg. ▲ Datblygu rhaglenni arloesol sy’n arwain at ddefnydd o’r Gymraeg, gan gynnwys prosiectau sy’n datblygu hyder dysgwyr a siaradwyr. ▲ Cydweithio gyda phartneriaid i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’u Cymraeg, gan gynnwys darlledwyr a chwmnïau theatr.
4. Cynllunio Strategol	Mae’r Ganolfan yn cynllunio yn strategol ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg i oedolion trwy Gymru. Mae parhau gyda’r trefniadau rheoli a llywodraethu cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cael ei arwain yn effeithiol a bod gweithdrefnau yn eu lle sy’n cefnogi gwasanaeth o ansawdd. Nod y trefniadau cynllunio, rheoli a llywodraethiant yw: • sicrhau gwelliannau parhaus i ansawdd y ddarpariaeth, gan gefnogi a chraffu gweithrediad darparwyr; • codi proffil y Gymraeg a’r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu’r iaith; • sicrhau bod y Ganolfan yn gwneud cyfraniad allweddol tuag at wireddu nodau Strategaeth Cymraeg 2050. Mae Bwrdd Cwmni y Ganolfan yn gyfrifol am reolaeth ariannol drylwyr a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae’r Bwrdd Ymgynghorol, sy’n atebol i’r Bwrdd Cwmni, yn gyfrifol am sicrhau bod y Ganolfan yn cyflawni ei hamcanion strategol yn y sector Dysgu Cymraeg yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi’r Gymraeg. Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei drafod gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Rôl y Pwyllgor yw craffu ar waith y Ganolfan a chynghori’r Llywodraeth ar faterion megis gwerth am arian a sut mae’r Ganolfan yn ymateb i bolisiau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cyflawni’r amcan strategol hwn drwy’r camau gweithredu canlynol: ▲ Cynllunio’r gwasanaeth Dysgu Cymraeg yn genedlaethol gyda’n darparwyr cyrsiau. Casglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd a thraweffeithiau ein darpariaeth a thrwy hyn, datblygu dealltwriaeth o gyfraniad ein gwasanaethau tuag at nodau hirdymor Strategaeth Cymraeg 2050. ▲ Cynnull grwpiau ar lefel genedlaethol yn gyson, gan gynnwys y Pwyllgor Cwricwlwm ac Adnoddau, y Pwyllgor Cefnogi Dysgwyr, y Pwyllgor Ansawdd a’r Pwyllgor Marchnata a Chyfathrebu, er mwyn ymgynghori a datblygu polisiau.

	▲ Parhau i adnabod a rhannu enghreifftiau o ragoriaeth ac arferion da yn unol â Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol y Ganolfan. ▲ Datblygu trefn gyllido a monitro cynnydd yn erbyn targedau, allbynnau a deilliannau cenedlaethol. Fel rhan o drefniadau monitro cynnydd, adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion a deilliannau fesul blwyddyn. Llywodraethiant ▲ Cynnal strwythur llywodraethiant cadarn, gweledol ac atebol sy'n gyrru gwelliannau i wasanaethau Dysgu Cymraeg yn genedlaethol. ▲ Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n adrodd ar wariant a chyrhaeddiad. ▲ Sicrhau archwiliadau mewnol ac allanol ac ymateb yn briodol iddynt. ▲ Rhoi ystyriaeth i faterion amrywiaeth wrth recriwtio i lefydd gwag ar fyrddau'r Ganolfan.


Cyd-destun Polisi:	
	Ers llunio Cynllun Strategol blaenorol y Ganolfan, gwelwyd newidiadau arwyddocaol i'r cyd-destun polisi a gweithredol sy'n llywio ein gwaith. Mae'r adran hon yn amlinellu'r newidiadau polisi mwyaf sy'n dylanwadu ar waith y Ganolfan.
Cymraeg 2050	Mae Strategaeth Cymraeg 2050, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, yn tanlinellu cyfraniad allweddol y sector Dysgu Cymraeg i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y cyfleoedd, ers sefydlu'r Ganolfan, i ddatblygu darpariaeth ar lefel genedlaethol i gefnogi cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle, y cartref, a chyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gefnogi'r dysgu.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Mae'r Cynllun Strategol hwn yn cefnogi ac yn cyfrannu tuag at wireddu uchelgais Strategaeth Cymraeg 2050. Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd rôl y Ganolfan wrth ddarparu arweiniad strategol gan annog ymrwymiad tuag at ddysgu Cymraeg ymysg cyflogwyr a rhanddeiliaid. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithio tuag at saith o nodau llesiant. Mae gwaith y Ganolfan yn cefnogi gweledigaeth y Ddeddf gan gynnwys y nod o greu Cymru lewyrchus a chyfartal lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Ffyniant i Bawb	Cyhoeddwyd cynllun gweithredu yr economi, Ffyniant i Bawb, yn 2017 gan gydnabod y gyd-berthynas rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r economi. Mae'r rhaglen Cymraeg Gwaith yn cynorthwyo cyflogwyr mewn sectorau penodol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu eu darpariaeth o wasanaethau Cymraeg.
Polisi Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd o fewn teuluoedd	Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynigion polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. 'Defnydd' yw un o themâu y Cynllun hwn ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau ymysg oedolion sy'n eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn hyderus o fewn y cartref a gyda phlant. Trwy ein darpariaeth gynhwysfawr i ddysgwyr ledled Cymru, mae cyrsiau'r Ganolfan yn atgyfnerthu'r nod o gefnogi defnydd mewn teuluoedd.
Polisiau a chynlluniau gwaith	Mae datblygiadau a chynlluniau gwaith sectorol yn dylanwadu ar y ffordd mae'r Ganolfan yn gweithredu ac yn blaenoriaethu ei gwaith gyda phartneriaid strategol. Er enghraifft, mae'r Ganolfan yn cefnogi camau gweithredu Mwy na Geiriau, y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio'n agos gyda Byrddau Iechyd. Mae'r Ganolfan hefyd yn cefnogi cwrmpas gwaith ehangach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ers ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16, gan gynnwys Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Bydd y Ganolfan hefyd yn effro i bolisiau a strategaethau newydd sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol.

Cyd-destun Polisi:	
Mesur y Gymraeg 2011	Mae'r gofynion ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg hefyd yn dylanwadu ar waith y Ganolfan, wrth i gyrff chwilio am gefnogaeth i gynyddu sgiliau'r gweithlu er mwyn medru darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.
Partneriaethau	Mae gweithio'n bartneriaethol wedi dod yn rhan hollbwysig o waith y Ganolfan ac mae'r partneriaethau sydd wedi'u sefydlu yn gyd-destun pwysig i'r Cynllun Strategol. Daeth llawer o'r partneriaethau yn bwysicach fyth yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys gyda sefydliadau megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Radio Cymru, a sefydlwyd partneriaethau newydd ystyrion gyda SaySomethingInWelsh ac Addysg Oedolion Cymru. Mae'r Ganolfan yn awyddus bob amser i roi dysgwyr, a'r hyn sydd orau i ddysgwyr, wrth galon ei gwaith. Mae cyfraniad clir a phwysig gan y Ganolfan i wneud wrth gefnogi blaenoriaethau polisi ac arwain cynlluniau cenedlaethol i gefnogi dysgu'r Gymraeg.

Cynd-destun Dysgu Cymraeg:

Daeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llwyr gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg ar 1 Awst 2016. Sefydlwyd y Ganolfan yn dilyn adolygiad o'r sector Dysgu Cymraeg gan Lywodraeth Cymru a arweiniodd at yr adroddiad 'Codi Golygon'. Mae cytundeb presennol y Ganolfan yn sefyll hyd at 31 Gorffennaf 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Adolygiad Cyflym o'r Ganolfan sydd i adrodd erbyn Gorffennaf 2021 gydag argymhellion am drefniadaeth y sector Dysgu Cymraeg i'r dyfodol.

Ar gyfer 2020-2021, derbyniwyd £8,660,000 i'w ddosbarthu i'n darparwyr, £1,355,000 ar gyfer y cynllun Cymraeg Gwaith a £1,783,900 fel grant craidd. Ar gyfer 2021-2022 bydd cyllideb Cymraeg Gwaith wedi ei adfer i £2,500,000.




Cydd-destun Dysgu Cymraeg:

Data y Ganolfan

Ystadegau Dysgu Cymraeg

Mae cronfa ddata ganolog yn casglu gwybodaeth gan bob dysgwr wrth iddynt gofrestru i fynychu cwrs. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion am y dysgwr (e.e. enw, cyfeiriad, dyddiad geni) a'r cwrs (lefel, lleoliad, dwyster y dysgu).

Nifer y dysgwyr unigryw



Mae 'niferoedd y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

- Yn **2017-2018**, roedd **12,680** o ddysgwyr unigryw.
- Yn **2018-2019**, roedd **13,260** o ddysgwyr unigryw, **cynnydd o 5%** o gymharu â **2017-2018**.
- Yn **2019-2020**, roedd 17,505 o ddysgwyr unigryw, cynnydd o 32% o gymharu â 2018-2019.

Nifer y gweithgareddau dysgu




Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gall dysgwr unigol fynychu cwrs 170 - 259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs 'fesul awr' ar lefel Sylfaen yn ystod y cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu.

- Cymerodd dysgwyr 2019-2020 ran mewn 30,115 o weithgareddau dysgu, cynnydd o 48% o gymharu â 2018-2019.

Mae prosiect cenedlaethol Cymraeg Gwaith wedi ei gynnwys yn llawn am y tro cyntaf yn niferoedd 2019-2020.

Cyd-destun Dysgu Cymraeg:


Lefelau Dysgu



Mae cyfleoedd dysgu o fewn y rhaglen Dysgu Cymraeg yn cael eu cynnig ar bump lefel.

- Yn 2019-2020 roedd 68% o ddysgwyr ar lefel Mynediad. Roedd 11% ar lefel Sylfaen a 19% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd). Bu cynnydd ym mhoblogrwydd cyrsiau Mynediad yn ystod y cyfnod clo.
- Yn 2018-2019 roedd 51% o ddysgwyr ar lefel Mynediad. Roedd 17% ar lefel Sylfaen a 32% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd).

Oed Dysgwyr



Cyfrifir oed y dysgwr o ddydd cyntaf y flwyddyn academiaidd dan sylw. Ar gyfer 2019-2020, cyfrifir oed y dysgwr ar 1 Awst 2019.

- Mae 15,015 o ddysgwyr 2019 - 2020 o fewn yr ystod oedran gweithio, 16-64 oed, sydd yn 86% o'r holl ddysgwyr. Mae dysgwyr yn yr ystod oedran 16-24 wedi cynyddu 5% o'i gymharu â 2018-19.

Cyd-destun Dysgu Cymraeg:	
Cymraeg Gwaith	Ers dechrau'r cynllun Cymraeg Gwaith mae oddeutu 16,000 o unigolion wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant, sy'n cynnwys cyrsiau ar-lein, cyrsiau dysgu dwys a chysiau preswyl. Yn 2018, datblygwyd y cynlluniau sectorol cyntaf ar gyfer y sectorau blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach/Addysg Uwch. Ers hynny, lluniwyd cynlluniau sectorol ar gyfer ieuchyd, gofal, prentisiaethau a'r celfyddydau. Mae partneriaethau strategol o fewn y sectorau amrywiol wedi arwain at lwyddiant y cynlluniau hyn. Yn dilyn toriadau i'n cyllideb yn sgil yr argyfwng ieuchyd cyhoeddus, bu'n rhaid addasu'r cynllun yn llwyr, gyda mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu ar-lein. Bu'n rhaid oedi nifer o'r cynlluniau sectorol, ond ein gobaith yw ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol. Yn lle'r dysgu wyneb-yn-wyneb dwys, ceir mynediad at gwrs ar-lein sy'n gyfwerth â 120 awr o ddysgu Cymraeg. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Ganolfan gynnig cymaint â hyn o oriau dysgu ar-lein. Mae'r cwrs yn un hunan-astudio llwyr ac yn cyfateb i Mynediad 1 a 2. Bydd tiwtor ar gael i gefnogi'r dysgu. Bu'n rhaid addasu elfen dysgu preswyl y cynllun, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr barhau i fanteisio ar y cyrsiau codi hyder a gyflwynir gan Nant Gwrtheyrn yn rhithiol am y tro. Mae cynllun Cymraeg Gwaith wedi bod yn arloesol dros y tair blynedd diwethaf o safbwynt digidol, ac wedi datblygu dros 110 awr o fodiwlau dysgu ar-lein. Mae chwech o'r cyrsiau yn rhai cyffredinol, a 10 o'r cyrsiau wedi eu teilwra at anghenion sectorau gwahanol. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nefnydd y cyrsiau hyn yn ystod y cyfnod clo.
Datblygiadau Digidol	Bu'r cyfnod diwethaf yn brysur o ran datblygiadau digidol a chynlluniau uchelgeisiol. Mae platfform digidol y Ganolfan, dysgucymraeg.cymru, sy'n 'siop-un-stop' ar gyfer y sector, yn ennill ei blwyf. Mae dysgwyr o bob cwr o'r wlad a thu hwnt yn troi ato er mwyn cofrestru a thalu am gwrs ac i ddefnyddio'r adnoddau digidol niferus, rhad ac am ddim. Yn fwy na hyn, mae wedi bod yn adnodd amhrisiadwy dros gyfnod yr argyfwng ieuchyd cyhoeddus, gan gynnig cyfleoedd i ddysgu o bell, yn rhithiol neu drwy hunan astudio. Roedd datblygiadau digidol eraill hefyd ar waith, yn adlewyrchu nod y Ganolfan o gynnig hyblygrwydd a dewis i bobl ddysgu'r Gymraeg, ac yn Mai 2020 fe gyflwynwyd cyrsiau cyfunol cenedlaethol am y tro cyntaf erioed. Nid ydym yn gwybod pryd y byddwn yn mynd yn ôl i'r 'dosbarth' i ddysgu. Bydd y 'dewis rhithiol' yn ddewis i ddysgwyr o hyn ymlaen. Gall y cyrsiau hyn hefyd gyfuno dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol gyda gweithgareddau ar-lein. Mae'r Ganolfan yn casglu a rhannu data am ddysgwyr er mwyn cynllunio a marchnata'r ddarpariaeth.
Adnoddau Cenedlaethol	Dros y pedair blynedd ddiwethaf cyflwynwyd cyrsiau cenedlaethol am y tro cyntaf erioed. Erbyn Ionawr 2021, cyhoeddwyd pob cwrs lyfr yn y gyfres Dysgu Cymraeg.